DAVIES, JOHN (1804 - 1884), gweinidog Annibynnol, ieithydd ac esboniwr

Enw: John Davies
Dyddiad geni: 1804
Dyddiad marw: 1884
Priod: Phoebe Davies (née Griffiths)
Plentyn: Elizabeth Davies
Plentyn: Mary Ann Davies
Plentyn: David Davies
Plentyn: John Griffith Davies
Rhiant: Mary Davies
Rhiant: David Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol, ieithydd ac esboniwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Thomas Eirug Davies

Ganwyd ym Mwlch-yr-helygen, plwyf Llanarth, 5 Mawrth 1804, ond symudodd ei rieni - David a Mary Davies - i fferm Castell-y-geifr, gerllaw, yn fuan wedyn. Cawsai ei dad well addysg na'r cyffredin, ac ef oedd athro cyntaf ei fab, ond yn 7 oed fe'i rhoed dan ofal Dr. Thomas Phillips yn ysgol y Neuaddlwyd. Dechreuodd bregethu yn ysgol Neuadd-lwyd, 1 Gorffennaf 1819, a derbyniwyd ef i Goleg y Drefnewydd yn 1822. Y Parch. Edward Davies oedd yr athro, ac ' S.R. ' a David Rees, Llanelli, ymhlith ei gydfyfyrwyr. Cafodd gyfle yno i feistroli elfennau Hebraeg, Arameg, a Syrieg yn ogystal ag i ymberffeithio mewn Groeg a Lladin a diwinyddiaeth. Cafodd alwad ar brawf o chwe mis i Land r, Penfro, ac ordeiniwyd 28 Mawrth 1827. Ymhen dwy flynedd sefydlodd eglwys Moreia, Llanwinio, ac yn 1863 rhoes Gland r heibio, a'i gyfyngu ei hun i Foreia, hyd ei farw, 16 Rhagfyr 1884. Bu'n weinidog da a phregethwr sylweddol, yn arweinydd i'w gylch a'i gyfundeb, ac yn gadeirydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1873. Ysgrifennai'n aml i'r cyfnodolion o dan yr enwau ' Siôn Llethi,' ' Castellanus,' a ' Siôn Gymro.' Ymhyfrydai mewn dadl megys honno yn erbyn ' J.R. ' ar ' Pregethu Dychmygion ' yn *Y Dysgedydd*, 1850-2.

Rhagorodd fel cyfieithydd ac esboniwr. Cyhoeddodd *Y Proffwydi Byrion* yn 1881, cyfieithiad o'r Hebraeg yn cynnwys darlleniadau ymyl y ddalen o'r hen gyfieithiadau Groeg, Syrieg, a Lladin, a nodiadau esboniadol. Y mae'r gwaith yn ffrwyth ysgolheictod a 40 mlynedd o lafur lled gyson. Ceir hefyd ymhlith ei bapurau *Llyfr Coheleth* a *Llyfr Hosea* - dau gyfieithiad; *Horae Petrinae*, darlithiau ar epistolau Pedr; *Flores Poetici*, casgliad o'i farddoniaeth. Cyhoeddodd hefyd *Llethi, Afonig Llanarth gyda Sylwadau Achlysurol*, yn 1868, ond nid oes iddo le uchel fel bardd.

Awdur

Y Parchedig Thomas Eirug Davies, (1892 - 1951)

Ffynonellau

Siôn Gymro sef buchedd a gwaith y Parch. John Davies, Glandwr a Moreia, Penfro (Llandysul 1938) gan y Parch. Ben Davies

Y Geninen, iii, 126; iv, 116

Y Diwygiwr, 1888-90

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, v, 258

NLW MSS 6196, 8613-9

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738093

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu